Woodland Challenges
for Wales, August 2006

COED CADW WOODLAND TRUST

There is a growing awareness that accessible green spaces can promote public health and community development.

We need to ensure that the young generation does not lose touch with the natural world.

Hasn't the time come to end the distinction between agricultural and woodland grants?

Woods are crucial to sustaining life on earth. They take in carbon dioxide and return oxygen to us. They enhance the quality of our lives and environment with their richness and biodiversity. It is surely our collective responsibility to protect, restore and enhance the distinctive woods, parklands and forests of Wales.

Our vision is to see the wooded landscapes of Wales put in good heart through sustainable management, our rich natural and cultural heritage of ancient woods, parklands and ancient trees protected and broadleaved woodlands expanded. We wish to see woodland and trees enjoyed and appreciated by the public and by government for the wide range of benefits they provide. Trees and woodland help make our lives rewarding and healthy. They give us green spaces for recreation, create attractive landscape, support wildlife, contribute to our historic environment, provide employment, and can produce timber, one of the most sustainable of materials.

The public have already given a lead on this. In 2005, 30,000 individual donations were made in support of Coed Cadw's campaign to acquire and restore a substantial part of Wentwood, Wales' largest remaining ancient woodland. But it is down to the Assembly and its sponsored bodies to provide leadership in protecting, expanding and making the most of Wales' woodlands.

The Welsh Assembly has made a good start in managing its own woods for the people of Wales. But there is so much more to be done and we hope that the Assembly's Environment Strategy can deliver much of this. We therefore call upon the Assembly Government, statutory agencies and local government to take these eight steps towards protecting and expanding Wales' trees, woods and forests.

1. The Assembly Government should commit itself to a 3 per cent year-on-year reduction in Welsh emissions of carbon dioxide

The Government's Chief Scientific Advisor has described climate change as a greater threat than terrorism, and it is the greatest single threat to biodiversity and irreplaceable ancient woodland. There is also much the Assembly could do to engage the public and build support for action, for example by promoting 'citizen science' in monitoring the effects of climate change.

2. Use agricultural policy reform and subsequent reviews to make the countryside as a whole more wildlife-friendly.

Climate change means that wildlife conservation is not just about maintaining what we have, but helping wildlife to adapt to the changes that are already underway. This cannot happen in small, isolated nature reserves. This means expanding and buffering semi-natural habitats and reducing harmful effects across the landscape. Such an approach would also deliver a wide range of benefits for local communities, such as improved water quality. We wish to see more, not less, money made available for agri-environment measures and more new native woodland created.

3. End the outdated distinction between agricultural and woodland grants.

Both agricultural and woodland grants in Wales are now based on delivery of benefits to the public. In Scotland and England, these grants are being brought together, allowing a more holistic approach towards caring for the countryside. This change could not be made overnight, but the Assembly Government should make clear in the Rural Development Plan that it proposes to move in this direction, so that this change can be implemented over the next six years.

Woodland Challenges
for Wales, July 2006

COED CADW
WOODLAND
TRUST

4. The Assembly Government should commit itself to start the restoration of all of its own planted ancient woodlands within ten years, and provide help for private owners to do the same

During the 20th century about 25,000 hectares of irreplaceable ancient woodland in Wales were replanted, mostly with conifers. Research indicates that we now have only a limited time to restore them to their former glory, or see their wildlife value further degraded.

5. Conserve Wales' ancient trees as 'green monuments' through planning and environmental policies

Wales, along with the rest of the UK, is the area of northern Europe with the greatest concentration of ancient trees. They are a part of heritage and culture and have immense value for wildlife and yet they have no special protection in planning policy in Wales.

6. Improve our health and quality of life by ensuring that:

- 30 per cent of the Welsh population has at least 2ha of accessible woodland within 500m of their home. Just 16 per cent have at present.
- 80 per cent of the Welsh population has at least 20ha of accessible woodland within 4km of their home. 70 per cent have at present.

There is a growing awareness that accessible green spaces, especially woodland, can promote public health and community development. Yet most people in Wales cannot reasonably walk to a local wood.

7. Increase native woodland cover in Wales by two thirds over the next 30 years

This implies an increase from just 5.6 per cent of land area to 9.3 per cent. If in the right places, this would be sufficient to meet challenges 4 and 6 and, in terms of woodland creation, challenge 2 as well. We would like to see large-scale, inspirational projects to create new wooded landscapes, and we believe that they would offer huge benefits in terms of tourism, wildlife and quality of life.

8. The Assembly Government should recognise that every child has the right to outdoor education

Outdoor learning fosters self esteem, team working skills, awareness of the natural world and citizenship. We need to ensure that the young generation does not lose touch with the natural world.

For further Information please contact:

Coed Cadw (The Woodland Trust), Uned B, Yr Hen Orsaf, Llanidloes, Powys SY18 6EB **www.coed-cadw.org.uk**

E-mail info@coed-cadw.org.uk **or telephone Rory Francis on** 01766 832563

Registered Charity No.294344. The Woodland Trust (Coed Cadw) logo is a registered trademark. ♻Printed on recycled paper

Around 25,000 hectares of Wales' irreplaceable ancient woodland was replanted, mostly with confers, in the last century. Time is now running out to restore this, before much of its wildlife value is lost.

The Llangernyw Yew, probably Wales' oldest tree, has been estimated to be up to 5,000 years old.

In Cwm Pennant in Snowdonia, 100 hectares (247 acres) of new broadleaved woodland is being created by three adjoining private landowners. The scheme will provide valuable new wildlife habitat, a superb recreational resource to encourage a healthy lifestyle, and a future supply of timber, as well as absorbing a significant amount of CO_2 from the atmosphere.

3327 07/06

Sialensau Coetir
i Gymru, Awst 2006

COED CADW
WOODLAND
TRUST

Mae ymwybyddiaeth gynyddol fod lleoedd gwyrdd agored, a choetir yn arbennig, yn gallu hybu iechyd cyhoeddus a datblygiad y gymuned.

Rhaid sicrhau na fydd y to ifanc yn colli cysylltiad â byd natur.

Onid yw'r amser wedi dod i gael gwared ar y wahaniaeth sydd yna rhwng grantiau amaethyddol a rhai coedwigaeth?

Mae coedwigoedd yn hanfodol i gynnal bywyd ar ein planed. Maent yn amsugno carbon deuocsid ac yn rhoi ocsigen yn ôl inni. Maent yn cynyddu ansawdd ein bywydau gyda'u cyfoeth bioamrywiol. Onid oes cyfrifoldeb arnom ni i gyd i warchod, adfer a gwella coedlannau, parcdiroedd a fforestydd Cymru?

Ein gweledigaeth yw adfer coedlannau Cymru trwy eu rheoli'n gynaladwy, gwarchod treftadaeth naturiol ein coedlannau, parcdiroedd a choed hynafol, ac ymestyn coedlannau collddail. Rydym am i goedlannau gael eu mwynhau a'u gwerthfawrogi gan y cyhoedd a'r llywodraeth oherwydd yr amrediad eang o fanteision y maent yn eu cynnig. Mae coed a choetiroedd yn cyfoethogi'n bywydau ac yn ein helpu i fyw'n iach. Maent yn rhoi lleoedd gwyrdd inni ar gyfer hamdden, yn creu tirluniau deniadol, yn cynnal bywyd gwyllt, yn darparu cyflogaeth ac yn gallu cynhyrchu pren, un o'r defnyddiau mwyaf cynaladwy.

Mae'r cyhoedd wedi rhoi arweiniad eisoes yn hyn o beth. Yn 2005, gwnaed 30,000 o roddion unigol i gefnogi ymgyrch Coed Cadw i brynu ac adfer darn helaeth o Goed Gwent, sef y goedwig hynafol fwyaf sydd ar ôl yn Nghymru. Ond mae cyfrifoldeb ar y Cynulliad, asiantaethau statudol ac awdurdodau lleol i rhoi arweiniad o ran gwarchod, ymestyn a gwneud y gorau o goetiroedd Cymru.

Mae Cynulliad Cymru wedi gwneud dechreuad da wrth reoli ei goetir er lles pobl Cymru. Ond mae yna gymaint yn fwy i'w wneud, a gobeithio y gall Strategaeth Amgylcheddol y Cynulliad gyflawni llawer o hyn. Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad, cyrff statudol a llywodraeth leol i gymryd yr wyth cam yma tuag at warchod ac ymestyn coed, coedlannau a fforestydd Cymru.

1. Fe ddylai Llywodraeth y Cynulliad wneud ymrwymiad i leihau allyriannau o Garbon Diocsid o Gymru 3 y cant bob blwyddyn

Mae Prif Ymgynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth wedi datgan fod newid yr hinsawdd yn fwy o fygythiad na therfysgaeth, a dyma'r bygythiad unigol mwyaf i fioamrywiaeth a choetir hynafol. Mae yna lawer y gallai'r Cynulliad wneud i annog y cyhoedd i helpu a chefnogi'r mesurau sydd eu hangen, er enghraifft trwy hybu 'gwyddoniaeth y dinesydd' i fonitro effeithiau newid yr hinsawdd.

2. Manteisio ar ddiwygiad polisi amaethyddol i wneud cefn gwlad yn ei gyfanrwydd yn fwy cyfeillgar i fyd natur.

Mae newid yr hinsawdd yn golygu nad yw cadwraeth natur yn fater o gynnal yr hyn sydd gennym eisoes, eithr fod rhaid helpu byd natur i addasu i'r newidiadau sydd ar y gweill yn barod. Nid all hyn ddigwydd mewn gwarchodfeydd natur bychain ar wahân. Mae rhaid ymestyn a chlustogi cynefinoedd lled-naturiol a lleihau effeithiau niweidiol ar draws y tirwedd. Fe fyddai hyn gynnig amrediad eang o fanteision i gymunedau lleol, fel ansawdd dwr gwell. Rydym eisiau gweld mwy, a nid llai o arian yn cael ei wario ar fesurau amaeth-amgylcheddol, a rhagor o goetir brodorol yn cael ei greu.

3. Cael gwared ar y wahaniaeth sy'n bodoli rhwng grantiau amaethyddol a choedwigol.

Bellach, mae grantiau amaethyddol a choedwigol yng Nghymru yn cael eu seilio ar fanteision i'r cyhoedd. Yn yr Alban ac yn Lloegr, mae'r grantiau hyn yn cael ei huno, gan alluogi'r Llywodraeth i drin cefn gwlad mewn ffordd mwy cyfannol. Ni ellid gwneud hyn dros nos, ond fe ddylai Llywodraeth y Cynulliad ddatgan yn y Cynllun Datblygiad Gwledig ei bod a'i bryd ar symud yn y cyfeiriad hwn, fel y gellir gweithredu'r newid dros y chwe blynedd nesaf.

Sialensau Coetir
i Gymru, Gorffennaf 2006

COED CADW
WOODLAND
TRUST

4. Fe ddylai Llywodraeth y Cynulliad ymrwymo ei hun i ddechrau adfer ei holl goetir hynafol a blannwyd, a hynny o fewn deng mlynedd, a chynnig help i berchnogion preifat i wneud yr un peth.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, ailblannwyd tua 25,000 o hectarau o goetir hynafol yng Nghymru, gyda choed conwydd yn bennaf. Mae ymchwil yn dangos nad oes gennym ond ychydig o amser ar ôl i'w hadfer i'w gogoniant blaenorol, neu weld eu gwerth i fyd natur yn cael ei ddiraddio ymhellach.

5. Gwarchod coed hynafol Cymru fel 'henebion gwyrdd' a hynny trwy bolisïau amgylcheddol a chynllunio.

Ar y cyd â gweddill y DU, Cymru yw'r ardal o ogledd Ewrop gyda'r crynhoad mwyaf o goed hynafol. Maen nhw'n rhan o'n hetifeddiaeth a'n diwylliant ac maen nhw o werth enfawr i fyd natur. Ond serch hynny, nid oes ganddyn nhw unrhyw amddiffyniad arbennig o fewn polisi cynllunio yng Nghymru.

6. Gwella'n hiechyd a'n hansawdd bywyd trwy sicrhau:

- Fod o leiaf 30 y cant o boblogaeth Cymru â 2 ha neu fwy o goetir agored o fewn 500m i'w cartref. Dim ond 16 y cant o'r boblogaeth sy'n mwynhau hyn ar hyn o bryd.
- Fod o leiaf 80 y cant o boblogaeth Cymru ag 20 ha o leiaf o goetir agored o fewn 4km i'w cartref. Mae 70 y cant yn mwynhau hyn ar hyn o bryd.

Mae ymwybyddiaeth gynyddol fod lleoedd gwyrdd agored, a choetir yn arbennig, yn gallu hybu iechyd cyhoeddus a datblygiad y gymuned. Ac eto, ni all y rhan fwyaf o bobl Cymru gerdded i goedlan leol, o fewn rheswm.

7. Cynyddu gorchudd coetir brodorol yng Nghymru o ryw ddwy ran allan o dair dros y 30 mlynedd nesaf.

Mae hyn yn golygu cynydd o 5.6 y cant o dirwedd Cymru i 9.3 y cant. Petai'r cynnydd yma'r digwydd yn y lleoedd iawn, fe fuasai'n ddigon i gwrdd â Sialensau 4 a 6, ac o ran creu coetir newydd, Sialens 2 hefyd. Fe hoffem ni weld prosiectau ar raddfa fawr fyddai'n ysbrydoli pobl trwy greu tirlweddau coediog newydd. Rydym yn credu y byddai hyn yn cynnig manteision enfawr o ran twristiaeth, byd natur ac ansawdd bywyd.

8. Fe ddylai Llywodraeth y Cynulliad gydnabod fod gan bob plentyn yr hawl i addysg yn yr awyr agored.

Mae addysg yn yr awyr agored yn hybu hunan-barch, sgiliau gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth o'r byd naturiol a dinasyddiaeth. Rhaid sicrhau na fydd y to ifanc yn colli cysylltiad â byd natur.

Am ragor o wybodaeth, a fyddech cystal â chysylltu â:

Coed Cadw (The Woodland Trust), Uned B, Yr Hen Orsaf, Llanidloes, Powys SY18 6EB **www.coed-cadw.org.uk**

Ebost info@coed-cadw.org.uk
neu ffonio Rory Francis ar 01766 832563

Rhif Elusen Gofrestredig 294344. Mae logo Coed Cadw yn farc masnachu cofrestredig.
♻Argraffwyd ar bapur eilgylch.

Yn ystod yr ugeinfed ganrif, ailblannwyd tua 25,000 o hectarau o goetir hynafol yng Nghymru, gyda choed conwydd yn bennaf. Mae ymchwil yn dangos nad oes gennym ond ychydig o amser ar ôl i'r hadfer i'w gogoniant blaenorol, neu weld eu gwerth i fyd natur yn cael ei ddiraddio ymhellach.

Amcangyfrifir fod ywen Llangernyw, sef coeden hynaf Cymru, hyd at 5,000 o flynyddoedd oed.

Yng Nghwm Pennant yn Eryri, plannir 100 hectar (247 erw) o goetir brasddeiliog newydd gan dri tirfeddiannwr preifat cyfochrog. Fe fydd y cynllun yn darparu cynefin gwerthfawr newydd i fyd natur, caffaeliad hamdden gwych i annog pobl i fyw yn iach a chyflenwad o goed ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag amsugno maint sylweddol i CO_2 o'r awyr.

3327 07/06